Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(94)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.
Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. EAQ(4)0191(HSS)

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd - adroddiad cynnydd chwe mis (30 munud) - gohiriwyd o 6 Tachwedd (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun "Gwella Ysgolion", a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2012 (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Newydd i Adolygu Ymarfer Plant - Diogelu ac Amddiffyn Plant yn Well (30 munud) (30 munud)**

**6. Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 (120 mins)**
**NDM5087 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty ar 2 Hydref 2012.

**Dogfennau Ategol**
Mae'r Cynigion yngylch Cyllideb Ddrafft 2013-14 ar gael drwy'r linc a ganlyn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=238895&ds=10/2012

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Papur Ymchwil: Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 - Y Gwasanaeth Ymchwil

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddrafftio ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 fel ei bod:

a) yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol eithriadol ar y Gwasanaeth Iechyd o ganlyniad i doriadau mewn termau real o £493 miliwn dros dair blynedd;

b) yn diwallu anghenion busnesau yng Nghymru, sy'n hanfodol wrth greu cyflogaeth;

c) yn cau'r bwlch cyllido rhwng disgyblion ysgol yng Nghymru a Lloegr; a

d) yn sicrhau darpariaeth i liniaru'r codiadau yn y dreth gyngor ar gyfer cartrefi yng Nghymru lle mae'r esgid ariannol yn gwasgu.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y bwlch mewn gwariant ar addysg rhwng Cymru a Lloegr a fydd yn gwaethygu oherwydd na lwyddwyd i gynyddu'n sylweddol y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2013/14.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg mynediad at driniaethau arloesol yn y GIG.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2012